**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

21Tachwedd 2013

Annwyl Christine,

Diolch am y cyfle i fod yn bresennol yn y Pwyllgor ar 16 Hydref. Yn y cyfarfod, cytunais i roi gwybodaeth bellach am nifer o faterion. Roedd eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn gofyn am ddeunydd ychwanegol yr wyf wedi'i gynnwys isod.

**Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gan Awdurdodau Lleol**

Un o brif ofynion y Dyletswyddau Sector Cyhoeddus yw bod Awdurdodau Lleol yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer yr holl bolisïau a phenderfyniadau perthnasol. Wrth wneud penderfyniad am gyllid neu ddarparu gwasanaeth, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol asesu effaith bosibl y penderfyniadau hynny, yn gadarnhaol ac yn negyddol, o ran hil, anabledd a rhywedd. Os na all Awdurdod Lleol osgoi effaith negyddol bosibl sy'n deillio o benderfyniad, rhaid i hyn fod yn ystyriaeth allweddol wrth weithredu yn y dyfodol, a gall hyn gynnwys edrych ar effaith y penderfyniad pan fydd y sefyllfa ariannol wedi gwella. Y realiti yw, ar adeg o gyfyngiadau ariannol, y bydd yn rhaid i'r holl awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau anodd sy'n aml yn amhoblogaidd ynghylch cyllid a darparu gwasanaethau.

Gofynnwyd imi a ydym yn disgwyl i bob Asesiad Effaith Cydraddoldeb gael ei gyhoeddi gan Awdurdodau Lleol ac a oedd modd inni ddwyn y cyfan at ei gilydd mewn un man. Yn ogystal â'r gofyniad i gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gael trefniadau yn eu lle hefyd i gyhoeddi adroddiadau am yr asesiadau hyn. Felly, byddwn yn disgwyl gweld adroddiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi ar wefannau Awdurdodau Lleol fel y gwnaeth yr Awdurdodau canlynol. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw dod ag adroddiadau o'r fath at ei gilydd mewn un man. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd adroddiadau pellach ar gael.

http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=13264

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/equality_impact_assessments_archive.aspx

http://www.torfaen.gov.uk/en/Business/TrainingandDevelopment/Equalities-assessmentandconsultation/Equality-Impact-Assessments.aspx

**Enghreifftiau o gyllid Cytundeb Canlyniadau sydd wedi' hatal**

Addewais roi enghreifftiau o flynyddoedd blaenorol lle cafodd cyllid Cytundeb Canlyniadau ei gadw oddi wrth Awdurdodau Lleol. Nodwyd y broses asesu sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Cytundebau Canlyniadau yn y prosbectws gwreiddiol ym mis Mawrth 2010. Ar ddiwedd pob blwyddyn adrodd, mae'r Awdurdodau Lleol yn darparu hunanasesiad llawn o'u perfformiad yn ogystal â thystiolaeth ategol. Yna rydym yn gwerthuso hyn drwy ddefnyddio dull safonol.

Wrth asesu Cytundeb Canlyniadau 2011-12 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, daeth yn amlwg fod eu perfformiad cyffredinol yn is na'r safon sy'n ofynnol ar gyfer bod yn gymwys am y grant llawn. Yn benodol, aseswyd dau o ddeg canlyniad gan y Cyngor yn aflwyddiannus, ac aseswyd tri chanlyniad yn rhannol lwyddiannus. Arweiniodd y diffyg hwn at yr Awdurdod Lleol ond yn gymwys i gael 75% o'r grant.

Yn yr un modd, fe wnaeth asesiad o Gytundeb Canlyniadau 2010-11 Cyngor Sir Ynys Môn ddatgelu bod eu perfformiad cyffredinol yn is na'r safon sy'n ofynnol i fod yn gymwys am y grant llawn, a chafodd yr Awdurdod Lleol 75% o'r grant.

**Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Mewn perthynas â Chynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), cytunais i roi rhagor o wybodaeth am y sail ar gyfer dosbarthu elfen CTRS o'r Grant Cymorth Refeniw i bob Awdurdod Lleol eleni a sut y bydd yn cael ei wneud o bosib y flwyddyn nesaf. Cytunwyd ar y dosbarthiad ar gyfer 2013-14 â Llywodraeth Leol drwy'r Is-grŵp Dosbarthu. Roedd y fformiwla'n seiliedig ar raniad 50:50 rhwng gwariant gwirioneddol Awdurdodau unigol ar Fudd-dal y Dreth Gyngor yn 2011-12 (yr elfen a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn unig); a'r gwariant a amcangyfrifwyd ar gyfer 2012-13. Ar gyfer 2014-15, mae'r Is-grŵp Dosbarthu wedi argymell bod y dosbarthiad yn seiliedig yn gyfan gwbl ar wariant gwirioneddol Awdurdodau Lleol ar Fudd-dal y Dreth Gyngor yn 2012-13 (yr elfen a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn unig). Caiff y dosbarthiad hwn ei adlewyrchu yn y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro a gyhoeddais ar 16 Hydref.

Roedd eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn gofyn am fwy o fanylion am sut rwy'n rhagweld Awdurdodau Lleol yn "rhannu" y diffyg. Roedd y Setliad Dros Dro'n cynnwys ein cynlluniau ar gyfer ariannu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2014-15, gyda £244m yn cael ei ddarparu ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn cyfateb â lefel y cymorth a ddarperir ar gyfer 2013-14. Bydd disgwyl i Lywodraeth Leol dalu am unrhyw ddiffyg sydd dros ben, gan fod codiadau yng nghost Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gysylltiedig â phenderfyniadau lleol sy'n ymwneud â chodiadau i'r Dreth Gyngor. Dengys ein gwaith monitro bod unrhyw gynnydd i gost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ers mis Ebrill 2013, ac uwchlaw'r lefel o ddarpariaeth a nodir uchod, yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar benderfyniadau lleol ynghylch y Dreth Gyngor, gan nad yw llwyth achosion wedi codi.

Mae'r trefniant ariannu hwn yn adlewyrchu cydberchnogaeth CTRS, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Leol ac sy'n rhoi cymorth i hawlwyr wrth fodloni eu

hatebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor a bennwyd yn lleol. Mae ond yn rhesymol disgwyl i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth i'r CTRS wrth wneud penderfyniadau ynghylch y lefel ar gyfer pennu eu trethi cyngor.

Gan nad ydym eto'n gwybod beth yw lefelau pennu'r Dreth Gyngor ar gyfer 2014-15, nid oes modd pennu'r diffyg y bydd yr Awdurdodau'n ei dalu. Serch hynny, drwy gyfateb i lefel y cyllid a ddarparwyd y llynedd mae'n golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu mwyafrif y cyllid sy'n ofynnol i weithredu CTRS.

Fe wnaethoch ofyn hefyd imi roi gwybod ichi am y sefyllfa ddiweddaraf o ran canlyniad yr adolygiad i archwilio opsiynau ar gyfer dyfodol hirdymor cymorth y Dreth Gyngor yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn mynd yn ei flaen ond byddaf yn gwneud yn siŵr fod Aelodau'r Cynulliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ei gynnydd a'r canlyniadau.

**Bil Teithio Llesol (Cymru)**

Fel y dywedais yn y cyfarfod, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon sy'n gyfrifol am gyflwyno Bil Teithio Llesol (Cymru). Fodd bynnag, deallaf mai portffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r ddeddfwriaeth. Dylech, felly, ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gael rhagor o fanylion.

**Gwerthiannau Masnachol**

Dywedais y byddwn yn darparu nodyn ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar Awdurdodau Lleol o ran y gwerthiannau masnachol y gallant eu gwneud ac unrhyw gynlluniau i adolygu hyn er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i gynhyrchu mwy o incwm. Mae ystod o ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio'r ffordd y gall Awdurdodau bennu taliadau i adennill costau darparu rhai gwasanaethau penodol. Mae mwyafrif y rhain yn dod o fewn cylch gwaith portffolios Gweinidogion eraill.

Yn fwy cyffredinol, fel cyrff cyhoeddus sy'n cael rhan fawr o'u cyllid gan Lywodraeth Ganolog a threthdalwyr, mae Awdurdodau Lleol hefyd yn ddarostyngedig i'r rheolau cymwys eang sy'n ymwneud â chystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol sy'n effeithio ar eu hymwneud â gweithgareddau masnachol. Nid yw rheoleiddio masnach ryngwladol ac arferion gwrth-gystadleuol yn faterion sydd wedi'u datganoli.

**Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol**

Mae eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn codi nifer o ymholiadau pellach ynghylch y dull o gyllido, gan gynnwys a yw'r fformiwla cyllido a ddefnyddir i ddosbarthu Grant Cynnal Refeniw yn rhoi digon o sylw i anghydraddoldebau, yn arbennig o fewn cymunedau difreintiedig.

Mae dangosyddion sy'n seiliedig ar amddifadedd yn gyfrifol am ddosbarthu dros chwarter yr Asesiad o Wariant Safonol, sef y sail ar gyfer dyrannu'r Grant Cynnal Refeniw. Mae dangosyddion sy'n seiliedig ar deneurwydd yn cyfrif am 6% o'r fformiwla. Mae pwysoliadau'r gwahanol fesurau o fewn y fformiwla dan adolygiad treigl er mwyn sicrhau eu bod yn dal i adlewyrchu'r ffactorau sy'n gyrru gwariant Awdurdodau Lleol. Cynhelir y broses hon drwy'r Is-grŵp Dosbarthu, gweithgor technegol Cyngor Partneriaeth Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol, yn ogystal ag arsylwyr annibynnol, sy'n sicrhau gwrthrychedd yn y rhaglen waith. Bob blwyddyn, ceir crynodeb o waith yr Is-grŵp mewn adroddiad a gyflwynir i mi ac sy'n rhoi gwybodaeth am y

penderfyniadau ynghylch y Setliad. Cyhoeddir gwaith y grŵp a'r cefndir i'r fformiwla dosbarthu ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethoch ofyn hefyd sut oedd yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella "dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng perfformiad Llywodraeth Leol a'r ddarpariaeth o gyllid" yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu mwy o arian yn effeithiol er mwyn hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth. Yn yr argraffiad diweddaraf o gyhoeddiad Perfformiad Gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol mae dadansoddiadau o wariant a pherfformiad. Mae'r dadansoddiadau'n pwysleisio'r her o wneud y cysylltiadau rhwng y ddarpariaeth o gyllid a pherfformiad at ddiben dylanwadu ar ddyraniadau yn y dyfodol.

Mae'r gostyngiadau cyffredinol i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2014-15 a 2015-16 yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed bod unrhyw gynigion i ailddyrannu cyllid rhwng Awdurdodau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dylai dyrannu arian yn effeithiol i hyrwyddo'r ddarpariaeth o wasanaethau hefyd ystyried y dulliau o ddarparu'r cyllid, yn ogystal â'r sail dros y dyraniad.

Ochr yn ochr â manylion y Setliad Dros Dro, cyhoeddais fy mod yn comisiynu peth gwaith, mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol, i ystyried pa ddulliau hyblyg eraill all fod ar gael i Awdurdodau Lleol fel y gellid defnyddio cyllid i'r diben pwrpasol, gan sicrhau bod gweinyddu a'r gorbenion yn lleihau.

I gloi, ar fater Awdurdodau Lleol yn osgoi cymryd penderfyniadau tymor byr wrth ymateb i'r gostyngiadau yn y gyllideb, mae'n bwysig sylweddoli bod gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i'w etholwyr lleol am y penderfyniadau a wneir ganddo. Roedd fy ymweliadau yn ystod yr haf ag Awdurdodau Lleol wedi darparu digon o dystiolaeth ac enghreifftiau gwych o wneud pethau'n wahanol, sy'n golygu bod modd cynnal a gwella gwasanaethau er gwaethaf y gostyngiad yn y cyllid. Yn allweddol i hyn mae rhannu arfer gorau. Yn y Cyngor Partneriaeth ar 5 Tachwedd, cyflwynais yr astudiaethau achos y bum yn ymweld â nhw yn yr haf, a thrafodwyd y ffyrdd y gallai'r holl ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud mwy i ledaenu a mabwysiadu arfer gorau.

Gall y Gronfa Gydweithredu Ranbarthol chwarae rhan bwysig yn hyn o beth, drwy ysgogi a chefnogi trawsnewid a fydd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer 30 phrosiect, lawer ohonyn nhw â rhaglen waith o 2 neu 3 blynedd. Mae cost gronnol y prosiectau hyn, a fydd yn dal i gael eu hariannnu am y cyfnod llawn, yn cyfateb yn fras i'r cyfanswm cyllid sydd ar gael gan y Gronfa Gydweithredu Ranbarthol. Felly, nid wyf yn rhagweld y bydd y Gronfa'n cael ei hailagor ar gyfer cylch newydd parhaol o geisiadau prosiect. Ymgymerir â gwerthuso prosiectau a gaiff eu hariannu o'r Gronfa.

**Cyfiawnder Ieuenctid**

Fel yr eglurais i'r Pwyllgor, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cyllideb Cyfiawnder Ieuenctid wedi cynyddu o £4.7 miliwn (2011-12) i £5.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon. Bu hyn yn gyfraniad pwysig tuag at leihau nifer y rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Hefyd, yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae nifer y bobl ifanc sy'n cael dedfryd o garchar wedi gostwng yn sylweddol, gyda chipolwg ar y data diweddaraf yn dangos bod llai na 50 o bobl ifanc Cymru yn y ddalfa.

Fodd bynnag, mae'r cyfraddau aildroseddu bellach yn codi. Mae hyn yn digwydd yn rhannol gan fod llai o blant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid sydd ag anghenion mwy cymhleth a phatrymau troseddu mwy cyson. Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ystyried a oes angen dull newydd o roi cefnogaeth well i'r grŵp hwn o bobl ifanc

i'w hatal rhag aildroseddu.  Dyma un o'r prif resymau fy mod wedi penderfynu datblygu Bil Cyfiawnder Ieuenctid.

Eleni, rwyf wedi cyflwyno dyraniadau rhanbarthol i'r Gronfa Atal Troseddu ymysg Ieuenctid (yr hen Gronfa Cymunedau Diogelach). Mae hyn wedi arwain at gydweithredu effeithiol ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol, gyda chyfleoedd i roi arfer gorau ar waith er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.  Dyrannwyd rhywfaint o'r gyllideb i brosiectau adsefydlu yng Nghymru. Nod y prosiectau hyn yw lleihau aildroseddu drwy wella'r ffordd y mae Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Timau Troseddau Ieuenctid), Profiannaeth a'r ystad ddiogeledd yng Nghymru yn cydweithio i adsefydlu pobl ifanc sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa a'r rhai sy'n bwrw dedfryd cymunedol tariff uchel.

Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei baratoi gyda manylion o oblygiadau cost y Bil a byddwn yn blaenoriaethu gwariant o ffynonellau cyllid presennol i dalu'r costau hyn.



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business